Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfranogi....Ymarfer Da

Cyfranogi .....Ymarfer Da

Ym mis Rhagfyr 2012, dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i Awdurdodau Lleol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Roedd y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi ar y pryd yn glir ei fod yn disgwyl y byddai'r canllawiau statudol yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru ac y byddai cyfranogiad gan blant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn dod yn rhan greiddiol o gyflenwi prif ffrwd. Yn ystod 2014 bu swyddogion o Lywodraeth Cymru yn ymweld â phob Awdurdod Lleol i gael 'darlun o gyfranogiad' drwy ddeall sut mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni'n lleol.

Roeddem yn ymwybodol bod Awdurdodau Lleol a'u partneriaid wedi bod yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfranogiad am nifer o flynyddoedd ac roeddem yn edrych ymlaen at weld y cyfleoedd gwerthfawr oedd ar gael i blant a phobl ifanc.

Yn ystod ein taith drwy Gymru, nodwyd nifer o enghreifftiau o ymarfer da ac arloesi ac roeddem yn hynod o falch gydag ymrwymiad parhaus a chreadigrwydd y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol. Mae'r papur hwn yn cynnwys manylion *rhai* o'r rhain, a fydd o gymorth i chi gobeithio – ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y papur felly os oes rhywbeth yn mynd â'ch sylw'n benodol neu os gwelwch chi rywbeth a allai fod yn addas i'ch awdurdod chi, mae cyfle i chi gael rhagor o wybodaeth. Mae'r papur hwn wedi ei rannu â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a oedd yn falch iawn o faint o waith a safon y gwaith cyfrannogi ar draws Cymru.

Aethom ati i fapio'r enghreifftiau o ymarfer da hyn yn erbyn y Safonau Cyfranogiad, er mewn nifer o achosion gellid dadlau bod y dystiolaeth yn croesi nifer o'r Safonau .....

Gwybodaeth - sy'n hawdd i blant a phobl ifanc ei deall

Dy Ddewis Di - digon o wybodaeth ac amser i wneud dewis cytbwys

Gwella'r ffordd rydym yn gweithio - Bydd oedolion yn gofyn i ti sut y gallant wella'r ffordd y maent yn gweithio yn y dyfodol

Adborth – Byddi di'n gweld pa wahaniaeth mae dy farn wedi'i wneud

Byddi di ar dy ennill – Byddi di'n mwynhau'r profiad

Dim Gwahaniaethu - yr un cyfle i bob blentyn a pherson ifanc gyfranogi

Parch – Byddwn yn cymryd dy farn o ddifrif

Safon – GWYBODAETH	Ymarfer da	Awdurdod Lleol
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall ▪ Oedolion yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir. *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gymryd rhan yn iawn. ▪ Dweud wrth blant a phobl ifanc sut y bydd y ffaith eu bod nhw'n cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth ▪ Dweud wrthyn nhw pwy sy'n mynd i wrando a newid pethau	○ Mae Uwch-Gyngor wedi'i sefydlu i blant oed cynradd i'w galluogi i fynegi eu barn. ○ Caiff cardiau pen-blwydd 18 oed eu hanfon gyda manylion sut i bleidleisio a/neu gyflwyno cwynion. Mae'r cerdyn hefyd yn cynnwys rhif llinell gymorth. ○ Gwefan 'askbridgend' sy'n dod â'r holl weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu at ei gilydd. ○ Caiff Twitter ei ddefnyddio i hyrwyddo ac nid yw plant a phobl ifanc yn ei weld yn ymwthiol. Hefyd mae Facebook yn llwyddo, yn arbennig ar gyfer grwpiau caeedig sy'n rhannu gwybodaeth. ○ Ceir Cynllun Gweithredu Cyfranogi Lleol 2013-2016 sy'n egluro'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae amrywiaeth o bartneriaid wedi cydweithio i ddatblygu'r Cynllun â'r nod o gynhyrchu dogfen aml-asiantaethol sy'n egluro sut mae partneriaid yn bwriadu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a sut y byddwn ni'n cydweithio i gyflawni nifer o ganlyniadau allweddol. ○ Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfranogi Lleol wedi'i gynnwys yn llawn yn y Cynllun Integredig Sengl/Atodiad B ac mae popeth sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol yn gwbl gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu e.e. y Rhwydwaith Rhieni, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Eco Ysgolion a gwasanaethau democrataidd.	Blaenau Gwent Blaenau Gwent Pen-y-bont Pen-y-bont Caerffili Caerffili

	○ ‘Diwrnod Ieuenctid Cyffredinol’ - cynhadledd flynyddol i ieuenctid yn seiliedig ar themâu sy’n codi o ymgynghoriadau a gynhelir drwy’r flwyddyn.	Sir Gâr
	○ Mae pecyn cymorth CCUHP wedi’i ddatblygu gydag ymarfer hyfforddi awr o hyd wedi’i gyflwyno i blant.	Sir Gâr
	○ Mae gwefan i bobl ifanc o’r enw ‘Info Bae’ wedi’i sefydlu, sy’n hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ogystal â chynnig amrywiaeth o wybodaeth ar faterion o ddiddordeb iddyn nhw. Mae pobl ifanc yn ymwneud â’r trefniadau golygyddol.	Ceredigion
	○ Mae hyrwyddwr llais y Dysgwr y Llwybrau Dysgu yn cynorthwyo’r Cyngor Ieuenctid a’r Cyngor Ysgolion. Caiff ymgynghoriadau eu trefnu gyda phobl ifanc a’u hwyluso drwy hyrwyddwr llais y Dysgwr ar wahanol elfennau, gan gynnwys Cynlluniau Corfforaethol. Caiff y cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio gan y Gwasanaethau Ieuenctid i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc a rhoi llwyfan iddyn nhw roi adborth yn uniongyrchol. Yna mae hyn yn cynorthwyo hyrwyddwr llais y dysgwr i gynnal grwpiau ffocws a sesiynau ymgynghori gyda phobl ifanc. Caiff gwybodaeth a gesglir yn y sesiynau ei hanfon at y rheolwyr, sy’n arwain at ddatblygu unrhyw adnoddau / anghenion hyfforddi fel bo’r angen a’u rhoi ar waith.	Sir Ddinbych
	○ Mae cronfa ddata eang gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a ddefnyddir i anfon gwybodaeth sy’n berthnasol i blant, pobl ifanc, teuluoedd a’r gwasanaethau sy’n gweithio gyda nhw. Mae’r trefniadau’n cynnwys Gwefan Sir y Fflint Ifanc, Twitter a thudalen Facebook a Diweddariad y Bartneriaeth.	Sir y Fflint

	○ Mae staff hefyd yn ymgymryd â gwaith ar ran cyfarwyddiaethau eraill i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau sy'n effeithio arnyn nhw.	Sir y Fflint
	○ Mae ffurflen protocol Cyfranogi wedi'i datblygu sy'n rhoi gwybod i bobl ifanc beth mae gofyn iddyn nhw gyfranogi ynddo a sut y bydd y broses honno'n gweithio. Mae hyn yn sicrhau bod cyfranogiad pobl ifanc yn cael ei werthfawrogi, ei gydnabod a'i ddefnyddio.	Powys
	○ Mae pecyn cymorth ymgysylltu ar-lein, 'Flex', wedi'i ddatblygu sydd wedi'i gynllunio'n benodol i bobl ifanc. Mae pob ysgol uwchradd yn yr Awdurdod yn gallu cyrchu 'Flex' wrth fewngofnodi yn yr ysgol. Mae hefyd ar gael i unrhyw berson ifanc gyda chyswllt gwe.	Torfaen
	○ Mae'r tîm Cyfranogi wedi cyflwyno gwersi ABCh ar y CCUHP a'r Safonau Cyfranogiad mewn nifer o ysgolion uwchradd.	Bro Morgannwg

Safon – DY DDEWIS DI	Ymarfer da	Awdurdod Lleol
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Mai plant a phobl ifanc sy'n dewis ydyn nhw am gymryd rhan neu beidio. ▪ Mai nhw sy'n cael dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig iddyn nhw. ▪ Mai nhw sy'n dewis beth maen nhw'n ei wneud a sut. *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Rhoi digon o wybodaeth ac amser i blant a phobl ifanc benderfynu ydy hyn yn rhywbeth maen nhw eisiau ei wneud ai peidio	○ Mae eiriolaeth wedi'i wreiddio yn Teuluoedd yn Gyntaf a chynigir eiriolwr annibynnol i'r holl blant a phobl ifanc sy'n defnyddio Teuluoedd yn Gyntaf. ○ Mae Hyrwyddwr Ieuenctid (Cynghorydd) wedi'i ethol. Mae pobl ifanc a'r Hyrwyddwr Ieuenctid yn cyflwyno i'r Cabinet ac yn mynychu pob pwyllgor craffu. ○ Yn dilyn adnewyddu ac ail-recriwtio pobl ifanc i'r Fforwm Ieuenctid cafwyd cynnydd o 108% yn yr aelodaeth. ○ Mewn partneriaeth gyda Tros Gynnal a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Bwrdd Diogelu Plant Iau wedi'i sefydlu; mae'r bwrdd yn cynnwys pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i gynrychioli barn plant a phobl ifanc ar faterion diogelu. Hefyd edrych ar y posibilrwydd y bydd Tros Gynnal yn ymgymryd â rôl weithredol gyda'r Cyngor Ieuenctid a'r Cyngor Plant mewn Gofal - byddai hyn yn rhoi rhywfaint o annibyniaeth iddyn nhw ac fel corff trydydd sector, byddai Tros Gynnal yn gymwys i ganfod cyllid amgen. ○ Cynhelir arolwg Viewpoint bob blwyddyn sy'n cynnwys dros 5000 o blant a phobl ifanc. Caiff y canlyniadau eu defnyddio i gynllunio, cyflenwi ac adnewyddu'r gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. ○ Datblygwyd gweithdai codi ymwybyddiaeth o'r CCUHP gan bobl ifanc sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y CCUHP, gan gynllunio a chynhyrchu adnoddau i gefnogi'r gweithdy.	Blaenau Gwent Caerffili Merthyr Tudful Casnewydd RCT RCT

	○ Datblygwyd ‘Uwch Arolwg’ a gaiff ei gynnal yn flynyddol dros y tair blynedd nesaf. Arolwg ar-lein rhyngweithiol yw hwn, sy’n casglu barn plant a phobl ifanc rhwng 11 a 19 oed. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn llywio ac yn darparu tystiolaeth i amrywiaeth o flaenoriaethau partneriaeth, ac mae’r canlyniadau wedi’u defnyddio i lywio’r modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi, gwella gwasanaethau a datblygu strategaethau a chynlluniau gwaith.	Abertawe
	○ Sgyrsiau Mawr - yn annog ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i ymchwilio i’r hyn sy’n bwysig iddyn nhw ac eraill; datblygu gofodau diogel i blant a phobl ifanc siarad yn agored ac yn onest am faterion sy’n effeithio ar eu bywydau; roedd plant a phobl ifanc yn disgwyl cynrychioli eu hunain yn unig yn hytrach na grwpiau ehangach.	Abertawe
	○ Ceir Panel y Bobl sydd wedi’i anelu at ddinasyddion 18+ a ‘Fy Marn’ sy’n becyn ymgynghori ar-lein.	Torfaen
	○ Mae’r Cyngor wedi datblygu Cyngor Ieuenctid (gyda’r holl ysgolion a grwpiau ieuenctid yn cymryd rhan weithredol drwy’r broses). Roedd y Cabinet ac uwch Gyfarwyddwyr y Cyngor yn chwarae rhan lawn a chefnogol yn y broses a’r cysyniad. Maen nhw hefyd wedi ethol Maer Ieuenctid a Chabinet Ieuenctid.	Bro Morgannwg

Safon – DIM GWAHANIAETHU	Ymarfer da	Awdurdod Lleol
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Bod plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ond bod gan bob un ohonyn nhw'r un hawl i gael dweud eu dweud am faterion sy'n bwysig iddyn nhw. ▪ Rydym eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Herio unrhyw wahaniaethu. ▪ Cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd ▪ Eu cael nhw i gymryd rhan yn y pethau maen nhw am gymryd rhan ynddyn nhw.	○ Cynhelir nifer o ddigwyddiadau gwrando mewn amgylchedd diogel er mwyn i Blant Sy'n Derbyn Gofal/Plant Mewn Angen allu siarad â phwyllgor craffu. ○ Mae'r gofal plant yn Blociau Adeiladu Resolfen (Canolfan Integredig) yn defnyddio dull yn seiliedig ar hawliau a chaiff plant o 3 oed eu cynnwys yn y prosesau recriwtio. ○ Caiff pobl ifanc eu cynnwys yn y gwaith Craffu/Cabinet. ○ Datblygwyd prosiect Gofalwyr Ifanc lle caiff y gofalwyr ifanc eu hyfforddi fel comisiynwyr ifanc, gan ddatblygu manylebau ac ymgynghoriadau a byddan nhw'n ymwneud â monitro'r contractau. ○ Ymhlith aelodaeth Fforwm Ieuenctid y Sir mae Plant sy'n derbyn Gofal, Fforwm Ieuenctid Sipsiwn a Theithwyr, Gofalwyr Ifanc, pobl ifanc ag anableddau. ○ Mae templed diwygiedig yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gwahaniaethu rhwng pobl ifanc ac oedolion dan gategori oed. ○ Sefydlwyd Senedd yr Ifanc ym mis Medi 2010 ac mae ei strwythur yn golygu bod modd i bobl ifanc gael eu cynrychioli drwy ardaloedd daearyddol yn ogystal â thrwy grwpiau penodol. Mae'r Senedd yn bwydo i nifer o fforymau a grwpiau penderfynu eraill, fel y pwyllgorau Craffu, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Comisiynydd Plant.	Caerdydd Castell-nedd Port Talbot Powys RCT Torfaen Wrecsam Wrecsam

Safon – PARCH	Ymarfer da	Awdurdod Lleol
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Bod gan bawb gyfle i ddweud eu dweud - bod pob barn yn bwysig ac y byddwn yn ei pharchu *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Gwrando ar syniadau, safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc. ▪ Eu cymryd chi o ddifri a'u trin yn deg ▪ Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i wneud rhywbeth am y materion sy'n bwysig iddyn nhw ▪ Gweithio gyda nhw i'w helpu i newid pethau er gwell.	○ Cyswllt â Dinasyddion – ceir ymgysylltu llawn gyda phlant a phobl ifanc wrth gynllunio a datblygu'n strategol. ○ Defnyddiwyd y Cyngor Ieuenctid fel rhan o'r ymgynghoriad ar y gyllideb. ○ Mae plant a phobl ifanc wedi ymwneud â phenodi uwch swyddogion. ○ Cynhelir grwpiau ffocws gyda phobl ifanc am gynlluniau'r dyfodol y gellid eu rhoi ar waith ac a allai effeithio arnyn nhw. Mae'r grwpiau ffocws hyn yn helpu i wella gwasanaethau neu ddarpariaethau drwy wrando ar lais y dysgwr a bwydo'n ôl i'r Uwch Dîm Rheoli. ○ Mae pobl ifanc yn ymwneud â datblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc, Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid, Moderneiddio Ysgolion, Sir y Fflint Ifanc, Cyfweliadau etc. Asiantaethau partner yn trefnu hyfforddiant cyfranogi / e-gyfranogi. ○ Mae Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Gyfan Merthyr Tudful yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a'r Hyrwyddwr Plant (Cynghorydd etholedig). ○ Mae'r fforwm hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Chabinet y Cyngor a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. ○ Ceir pobl ifanc ar y Byrddau Diogelu Lleol.	Caerffili Sir Gâr Ceredigion Sir Ddinbych Sir y Fflint Merthyr Merthyr Merthyr

	○ Mae trefniadau sefydlu'r Maer a'r Dirprwy Faer Ieuenctid yn efelychu sefydlu'r Maer gyda seremoni lawn.	Merthyr
	○ Drwy'r Fforwm Ieuenctid mae gan bobl ifanc gyswllt uniongyrchol ag Aelodau o'r Cyngor.	Sir Fynwy
	○ Caiff y Bartneriaeth Cyfranogi, Ymgysylltu ac Eiriolaeth ei chyfeirio gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu trin o ddifrif a bod yr holl blant a phobl ifanc yn cyfrannu at y prosesau penderfynu.	Castell-nedd Port Talbot
	○ Mae'r Cyngor Ieuenctid yn bwydo'n uniongyrchol i'r Cabinet.	Castell-nedd Port Talbot
	○ Cynhelir diwrnod 'Dweud eich Dweud' sy'n gweithio gyda noddwyr y rhaglen i wreiddio'r wybodaeth a gesglir i mewn i'r rhaglenni. Un o'r 5 rhaglen yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Caiff pob rhaglen ei noddi gan Aelod o'r Cabinet.	Powys
	○ Bob blwyddyn, fel rhan o broses gosod cyllideb y Cyngor, mae'r tîm ymgynghori'n ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ysgolion i holi eu barn am flaenoriaethau'r cyngor, perfformiad cyfredol a gosod y dreth gyngor.	RCT
	○ Roedd Strategaeth Comisiynu'r Awdurdod ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc 2014-17 yn cynnwys pobl ifanc ar bob cam ac maen nhw hefyd yn aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol.	Wrecsam
	○ Mae cynrychiolwyr o'r Cyngor Gofal Pobl Ifanc yn mynychu cyfarfodydd o'r Panel Rhianta Corfforaethol.	Wrecsam

Safon – BYDDWCH CHI AR EICH ENNILL	**Ymarfer da**	**Awdurdod Lleol**
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Ein bod ni am i blant a phobl ifanc fwynhau ac elwa o gymryd rhan. ▪ Ein bod yn gwybod bod ganddyn nhw bethau eraill i'w gwneud yn eu bywydau hefyd. ▪ Sicrhau bod cymryd rhan yn brofiad cadarnhaol, nid yn un negyddol. *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Gweithio mewn ffyrdd diogel, pleserus, llawn hwyl ▪ Gwneud yn fawr o'r yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei wybod ▪ Gwneud pethau cadarnhaol sy'n meithrin eu hyder ▪ Cwrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n hwylus i blant a phobl ifanc eu defnyddio ▪ Gwerthfawrogi ac yn parchu'r hyn sydd ganddyn nhw i'w gynnig	○ Mae pecyn 'Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc' wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno ar draws y Sir ac mae ysgolion, gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyrff blynyddoedd cynnar etc yn ei ddefnyddio. ○ Ceir Fforwm Iau Sirol gweithredol a llwyddiannus iawn. ○ Mae'r Cyngor Ieuenctid yn trefnu 'Cinio Hawliau' bob blwyddyn sy'n cynnwys ASau, cynghorwyr a phobl ifanc. ○ Bob blwyddyn trefnir prosiect 'Llais Pobl Ifanc', lle caiff pobl ifanc eu hyfforddi er mwyn iddyn nhw hyfforddi oedolion am y CCUHP a chyfranogi, gan gynnwys Safonau Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. ○ Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Rhedeg Cyngor Sir Fynwy' gyda phlant a phobl ifanc yn cynnig barn ar yr hyn y bydden nhw'n ei wneud pe baen nhw'n rhedeg y Cyngor am ddiwrnod. ○ Yn 2014 cynhaliodd y Cyngor gynllun peilot ar gyfer Menter Disgyblion Ysgol y Maer yn 2014. Mae'r fenter wedi galluogi disgyblion i gysgodi'r maer am ddiwrnod i weld rolau a chyfrifoldebau'r maer yn ogystal â dod i ddeall mwy am waith ehangach yr awdurdod lleol. Mae'r fenter hefyd wedi gwahodd grwpiau o ddisgyblion o 8 ysgol uwchradd i'r siambr i wneud cyflwyniadau ar eu syniadau am sut i wella Casnewydd yn ystod y broses adfywio. Gwnaed cyflwyniadau i'r Maer, aelodau etholedig, uwch swyddogion a chynrychiolwyr busnes yng Nghasnewydd.	Caerffili Caerffili Caerdydd Sir y Fflint Sir Fynwy Casnewydd

	○ Bydd y Cyngor Sir yn mabwysiadu'r CCUHP yn ffurfiol a cheir 'Pwyllgor ar ddull y CU' o bobl ifanc a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio'r cynnydd maen nhw wedi'i wneud tuag at gyflawni'r adduned.	Sir Benfro
	○ Sefydlwyd proses adrodd 'ar ddull y CU' yn yr Awdurdod sy'n efelychu'r CU, gyda chorff cynrychioliadol o blant a phobl ifanc yn chwarae rôl Pwyllgor y CU.	Sir Benfro
	○ Roedd gan blant a phobl ifanc ran yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun Integredig Sengl o'r dechrau. Cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu ar wahân gyda phlant ifanc, ac yna arddegwyr, i gynhyrchu fersiynau oedd yn fwy addas i blant a phobl ifanc.	RCT
	○ Fforwm cyfansoddiadol yw'r Fforwm Ieuenctid ac yn sgil hynny mae'n gallu codi cyllid drwy brosesau cynnig. Mae'r fforwm hefyd yn chwarae rhan yn gosod y gyllideb.	Torfaen
	○ Yn ddiweddar roedd yr Asesiad Anghenion Unedig yn cynnwys dros 2000 o gyfraniadau gan blant a phobl ifanc. Caiff y data a gesglir ei ddefnyddio i ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl. Cyfrannodd plant a phobl ifanc at gynllunio'r dogfennau ymgynghori â phlant a phobl ifanc, sef ymgynghoriad ar draws y sir gyda fersiwn i bobl ifanc.	Bro Morgannwg
	○ Hefyd hyfforddwyd 36 o ddisgyblion cynradd ar sgiliau ymgynghori i helpu i symud Cynllun Cyflenwi'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer 2014-16 yn ei flaen.	Bro Morgannwg

Safon – ADBORTH	**Ymarfer da**	**Awdurdod Lleol**
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Mae'n bwysig iawn bod plant a phobl ifanc yn gwybod pa wahaniaeth maen nhw wedi'i wneud a sut y mae eu syniadau wedi cael eu defnyddio. *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc am beth sy'n digwydd. ▪ Rhoi adborth cyn gynted ag sy'n bosib a hynny mewn ffordd hawdd ei deall.	○ Ceir cynlluniau i ddatblygu 'Canolbwynt Ymgynghori' - cronfa ddata ar-lein lle gall pobl ifanc gael rhagor o wybodaeth a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd hefyd yn cynnig adborth i bobl ifanc yn egluro sut y cafodd eu barn/sylwadau/safbwyntiau eu defnyddio. ○ Trefnodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol weithdai ac yn sgil hyn gwnaed newidiadau a rhannwyd yr wybodaeth gyda phlant a phobl ifanc. Roedd un darn o waith yn canolbwyntio ar fwlian a gwnaed newidiadau/gwelliannau. Cynhaliwyd archwiliadau yn dilyn hyn i sicrhau bod yr holl ysgolion yn dilyn y canllawiau newydd. ○ Cynhelir cyfrifon Facebook a Twitter bywiog, sy'n cael eu defnyddio i hysbysu ac ymgysylltu â phobl ifanc. ○ Canolbwynt ymgynghori ar-lein sy'n cynnwys system ar gyfer adborth, twitter, llyfrgell o ymarfer gorau/gwerthuso. Ar hyn o bryd mae'n datblygu fersiwn pobl ifanc gyda phobl ifanc.	Sir Gâr Ceredigion Sir Fynwy RCT

Safon – GWELLA EIN FFORDD O WEITHIO	**Ymarfer da**	**Awdurdod Lleol**
Ystyr y Safon hon yw: ▪ Ein bod ni eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc *Byddwn ni i gyd yn:* ▪ Edrych ar ein ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc a sut mae gwella ar hynny. ▪ Gofyn iddyn nhw beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid. ▪ Sicrhau bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.	○ Mae holl aelodau'r bartneriaeth strategol wedi llofnodi ymrwymiad i gwrdd â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i Gymru ac mae'n ofynnol iddyn nhw gwblhau ffurflen protocol cyn cyfarfod â phlant a phobl ifanc. ○ Maen nhw wedi buddsoddi cyllid i sicrhau cynrychiolydd UNICEF i gyflenwi hyfforddiant ar Hawliau mewn ysgolion ar draws yr Awdurdod. ○ Mae gan 'Gomisiynwyr Ifanc' ran yn y gwaith o gomisiynu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Wrth gaffael gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, aeth Caerdydd ati i fabwysiadu agwedd arloesol at gomisiynu'r gwasanaethau hyn gan gynnwys grŵp o 21 o blant a phobl ifanc o bob rhan o'r ddinas i weithredu fel Comisiynwyr Ifanc. Roedd gan y Comisiynwyr Ifanc 25% o'r pwerau i wneud penderfyniadau wrth gomisiynu gwerth £29miliwn o wasanaethau. Enillodd hyn wobr Caffael Genedlaethol. ○ Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn cael eu haildrefnu gan ddilyn model y Tîm o Amgylch y Teulu ac maen nhw'n cael eu diogelu. Gwasanaethau Ieuenctid / ysgolion / Cymunedau yn Gyntaf / Teuluoedd yn Gyntaf - ceisio sicrhau ffordd fwy cydlynol i ymgysylltu â theuluoedd a phlant. ○ Byddan nhw'n defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wrth gyflwyno polisïau newydd neu adolygu/newid polisïau cyfredol gan ddatblygu Siarter Cyfranogi i Blant a Phobl Ifanc gyda chefnogaeth penderfynwyr allweddol.	Blaenau Gwent Blaenau Gwent Caerdydd Sir Gâr Sir Gâr

	○ Mae swydd Cydlynydd Partneriaethau a Chyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn swydd benodol.	Ceredigion
	○ Caiff cymorth ei ddarparu i wasanaethau, partneriaid a phrosiectau allu datblygu a gwella cyfranogiad o fewn eu lleoliadau. Maen nhw wedi darparu cymorth penodol i nifer o bartneriaid gan gynnwys CAMHS, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, NACRO, a nifer o rai eraill. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant i staff, cymorth i ddatblygu strategaeth a chymorth gyda chynnwys plant a phobl ifanc mewn prosiectau neu ddatblygiadau penodol.	Conwy
	○ Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cynnal cyfarfodydd un i un gyda phrosiectau Teuluoedd yn Gyntaf i drafod dulliau a strategaethau cyfranogi.	Conwy
	○ Caiff hyfforddiant ei ddarparu i wasanaethau, partneriaid a phrosiectau i ddatblygu a gwella cyfranogiad, gyda dull cydlynol yn darparu hyfforddiant i staff ym mhob un o'r prif gyrff partner. Mae'r hyfforddiant wedi cynnwys cyflwyniad sylfaenol i hawliau plant a chyfranogiad, a hyfforddiant mwy penodol ar ddulliau arbennig fel ymgynghori, cyfweld ansoddol, a hwyluso fforymau a grwpiau.	Conwy
	○ Mae pecynnau cymorth wedi'u datblygu i gwrdd ag anghenion datblygu'r gweithlu lleol. Mae'r rhain yn cynnwys: pecyn cymorth hwyluso; pecyn cymorth 5 cam at ymgynghori; pecyn cymorth sefydlu a rhedeg fforwm ieuenctid; pecyn cymorth datblygu strategaeth cyfranogi.	Conwy
	○ Mae'r Swyddog Gwybodaeth ac Ymglymu'n gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i lywio cyfranogiad a hefyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar brosiect penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu bwydo i ddatblygiad yr asiantaethau partner.	Sir y Fflint

	○ Mae pobl ifanc yn aelodau llawn o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda naill ai Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid neu'r Maer Ieuenctid yn eistedd ar y Bwdd Lleol. Maen nhw'n cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd.	Merthyr Tudful
	○ Ceir grŵp Ymgysylltu a Chyfranogi sy'n gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'n cynnwys aelodau o'r Adran Iechyd, Heddlu Gwent, GAVO ac eraill sy'n gweithio i alluogi ac annog ymgysylltu a chyfranogi.	Sir Fynwy
	○ Maen nhw wedi ymwneud â chynllunio Fframwaith a Phecyn Cymorth Ymgysylltu fydd yn gwreiddio ymarfer ymgysylltu a chyfranogi ar draws y sir.	Sir Fynwy
	○ Caiff cyfranogi ei gynnwys ym mhob Cytundeb Lefel Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a chaiff gwybodaeth ei chasglu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Castell-nedd Port Talbot
	○ Sefydlwyd Uned Hawliau Plant a datblygwyd Siarter Hawliau Iechyd Plant.	Castell-nedd Port Talbot
	○ Datblygwyd proses Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau ar gyfer cyfranogi, ymgysylltu ac eiriolaeth.	Castell-nedd Port Talbot
	○ Caiff yr holl adroddiadau Cabinet eu hanfon at y tîm cyfranogi cyn cael eu cyflwyno fel bod modd gwneud yn siwr fod effaith penderfyniadau ar blant a phobl ifanc wedi'i ystyried.	Casnewydd
	○ Mae'r Cyngor wedi datblygu adduned plant a phobl ifanc – i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu gwireddu ei botensial i fyw bywyd sy'n rhydd o gamdriniaeth, yn iach ac yn hapus, heb dlodi, gydag addysg dda a chyfleoedd am weithgareddau hamdden o ansawdd uchel.	Sir Benfro

	○ Maen nhw wedi sefydlu swyddfa Hawliau plant a phobl ifanc i weithio ar gyflenwi eu Strategaeth Cyfranogi a Hawliau.	Sir Benfro
	○ Mae hyfforddiant ar Gyfranogiad Disgyblion, sy'n cynnwys hyfforddiant ar Hawliau Plant, yn orfodol i lywodraethwyr ysgol, athrawon cyswllt ac athrawon hŷn.	Sir Benfro
	○ Mae holl asiantaethau a phartneriaid yr awdurdod wedi datblygu cynlluniau gweithredu yn gysylltiedig â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad ac mae gorfodaeth ar bartneriaid i weithio yn ôl y Safonau wedi'i wreiddio mewn unrhyw gontract.	Powys
	○ Caiff hyfforddiant ar y CCUHP ei gyflwyno fel rhaglen hyfforddi gwbl integredig ar draws y gwasanaethau ac mae'r hyfforddiant yn benodol i Gymru, yn benodol i swyddi ac yn benodol i Adrannau.	Powys
	○ Caiff 'sylw priodol' i'r CCUHP ei wreiddio ym mhob un o bolisiau'r cyngor gyda thri grŵp gorchwyl a gorffen – yn edrych ar y cynllun ac ar sut i dystio i sylw priodol; hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth; a hyfforddiant.	Abertawe
	○ Datblygwyd Protocol Cyfranogi a chaiff hyfforddiant ei ddarparu i holl wasanaethau'r Cyngor ac i bartneriaid ehangach, i sicrhau bod unrhyw ymgysylltu'n cael ei gynnal mewn iaith sy'n hygyrch i bobl ifanc.	Abertawe
	○ Datblygwyd Fframwaith Ymgysylltu i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus gydag ymgysylltu. Mae'r fframwaith yn nodi bod y CCUHP yn egluro'r hawliau sydd gan blant a phobl ifanc i fod â rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae hefyd yn diffinio ymgysylltu i gynnwys cyfranogiad plant a phobl ifanc, gan sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei integreiddio ac y dylai fod yn ystyrlon.	Torfaen

	○ Ceir Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor sy'n ymwreiddio'r saith Nod Craidd.	Torfaen
	○ Mae Arweinydd y Cyngor yn eistedd ar y fforwm ieuenctid ac mae hefyd yn un o'r ymddiriedolwyr.	Bro Morgannwg
	○ Caiff hyfforddiant cyfranogi ei gyflwyno i holl staff yr Awdurdod yn ystod 2014/15. Mae'r Strategaeth Cyfranogi'n cefnogi Cynllun y Cyngor, sy'n gosod blaenoriaethau ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn Wrecsam.	Wrecsam
	○ Maen nhw'n defnyddio Pwyllgor Craffu'r Awdurdod Lleol a'r CCUHP i ystyried sut y gallan nhw wreiddio gofynion Atodiad B yn null yr Awdurdod o weithio.	Wrecsam

Carem nodi na dyma'r unig waith da sy'n cael ei wneud o bell ffordd. Yn ogystal rydym ni'n gwybod bod rhai o'r enghreifftiau hyn ar waith mewn mwy nag un Sir.

Atodiad 1

Cysylltiadau Awdurdodau Lleol

Awdurdod Lleol	Manylion Cyswllt
Ynys Môn	Anwen Dodd AnwenDodd@anglesey.gov.uk 01248 752033
Blaenau Gwent	Dave Rees Dave.rees@blaenau-gwent.gov.uk 01495 357814
Pen-y-bont	Mary Hughes / Angela Davies Mary.Hughes@pen-y-bont.gov.uk Angela.j.davies@pen-y-bont.gov.uk 01656 642758
Caerffili	Clare Ewings / Clare Jones ewingc@caerffili.gov.uk JONESCL1@caerffili.gov.uk 01443 863033
Caerdydd	Rachel Jones / Simon Morris Rachel.jones@caerdydd.gov.uk Simon.morris@caerdydd.gov.uk 029 2082 3854
Sir Gâr	David Astins / Sarah Powell DAstins@Sir Gâr.gov.uk SJPowell@Sir Gâr.gov.uk 01267 246426
Ceredigion	Llywelyn Rees Llywelyn.rees@ceredigion.gov.uk 01545 574185
Conwy	Deborah Job deborah.job@conwy.gov.uk 01492 574091
Sir Ddinbych	Karen I Evans / Sherrie Paterson karen.i.evans@sir Ddinbych.gov.uk sherrie.patterson@sir Ddinbych.gov.uk 01824 708009/32
Sir y Fflint	Alison Thomas / Emma Murphy Alison.Jane.Thomas@sir y Fflint.gov.uk Emma_Murphy@sir y Fflint.gov.uk 01352 703802

Gwynedd	Llio Johnson / Bethan Williams LlioJohnson@gwynedd.gov.uk BethanJWilliams@anglesey.gov.uk 01766 771000
Merthyr Tudful	Chris Richards chris.richards@merthyr.gov.uk 01685 724687
Sir Fynwy	Kerry Griffiths/ Rhian Cook KerryGriffiths@sir Fynwy.gov.uk rhiancook@sir Fynwy.gov.uk 01633 644644
Castell-nedd Port Talbot	Mike Mainwaring mikem@nptcvs.org.uk 01639 631246
Casnewydd	Lisanne Saladino Lisanne.Saladino@casnewydd.gov.uk 01633 210821
Sir Benfro	James White / Nadine Farmer james.white@sir Benfro.gov.uk Nadine.farmer@sir Benfro.gov.uk 01437 775233
Powys	Janet Bidgood / Rebecca Unsworth janet.bidgood1@powys.gov.uk rebecca.unsworth@powys.gov.uk 01597 826627
Rhondda Cynon Taf	Chris Davies / Sue Phillips christopher.s.davies@rctbc.gov.uk sphillips@interlinkrct.org.uk 01443 424069 / 01443 846200
Abertawe	Chris Sivers/ Sian Bingham/Katie Spendiff chris.sivers@abertawe.gov.uk sian.bingham@abertawe.gov.uk Katie.spendiff@abertawe.gov.uk 01792 635400
Torfaen	Cath Cleaves Cath.cleaves@torfaen.gov.uk 01495 766475
Bro Morgannwg	Vee Vandevorde vvandevorde@valeofglamorgan.gov.uk 01446 731628

Wrecsam	Kay Newman/ Tricia Jones Kay.newman@wrecsam.gov.uk Ctricia.jones@wrecsam.gov.uk 01978 295477

Llywodraeth Cymru - Y Gangen Grymuso Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd			
Elin Gwynedd	Pennaeth y Gangen	0300 062 5553	elin.gwynedd@wales.gsi.gov.uk
Wendy Thomas	Uwch Reolwr Polisi	029 2082 6002	wendy.thomas2@wales.gsi.gov.uk
Dan Balkwill	Rheolwr Cyfranogiad	029 2082 1644	daniel.balkwill@wales.gsi.gov.uk